b

# Polisi Presenoldeb a Phrydlondeb Clwstwr Bro Edern

## gyda gweithdrefnau Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes

**Cyffredinol**
Yng nghlwstwr Bro Edern rydym yn cydnabod bod presenoldeb uchel yn angenrheidiol er mwyn i blant ddatblygu’r sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth fydd yn eu caniatáu nhw i ddatblygu i fod yn aelodau gwerthfawr o’u cymuned.

Mae’n rhaid i ddisgyblion fynychu'r ysgol bob diwrnod mae’r ysgol ar agor iddynt. Dylent gyrraedd yn brydlon i'r ysgol ac i wersi. Dylent fod yn bresennol ymhob gwers oni bai bod rhesymau dilys dros beidio, e.e. arholiadau offerynnol, rhesymau meddygol.

Mae gan Rieni/Gofalwyr disgyblion oedran ysgol orfodol ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod eu plant yn derbyn addysg effeithlon, llawn amser drwy fynychu’r ysgol neu fel arall (Adran 7, Deddf Addysg 1996)

Os nad yw disgybl o oedran ysgol orfodol sydd wedi cofrestru ag ysgol yn mynychu’r ysgol yn rheolaidd yna mae’r rhiant/gwarcheidwad yn euog o drosedd (Adran 444(1), Deddf Addysg 1996).

Mae’n rhaid i bob disgybl o oedran gorfodol fod yn brydlon a chofrestru ddwywaith y dydd; ar gychwyn y sesiwn fore ac unwaith yn ystod y sesiwn brynhawn. (Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010).

Mae’r ysgol yn cofrestru disgyblion yn swyddogol ddwywaith y dydd, unwaith ar ddechrau sesiwn y bore mewn dosbarthiadau cofrestru ac unwaith ar ôl cinio.

**Manylion gweithredol**
Yn y bore, dylai disgyblion aros ar yr iard neu yn y dosbarthiadau yn ystod tywydd garw, nes i’r ysgol ddechrau.

Ar ganiad y gloch disgwylir i’r disgyblion fynd yn syth i’w rhesi dosbarth ar iard yr ysgol. Gofynnir i’r athrawon fod yno’n croesawu’r disgyblion ac yn eu tywys i’r dosbarthiadau yn drefnus a thawel.

Os yw disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr, dylai’r disgybl gofrestru yn y brif swyddfa cyn mynd i unrhyw wers neu gyfnod o egwyl. Disgwylir fod rheswm yn cael ei roi gan riant/warcheidwad y disgybl am ei fod ef/hi yn hwyr ac i lenwi’r llyfr hwyr yn y derbynfa.

Caeir y cofrestrau yn y bore am 9:35am ac yn y prynhawn am 1:25pm.

Rhoddir marc cyrraedd yn hwyr heb ei awdurdodi i ddisgyblion sy'n cyrraedd ar ôl i'r gofrestr gau heblaw bod yna reswm derbyniol am hyn e.e. apwyntiad meddygol. Mae hyn yn absenoldeb heb ei awdurdodi.

**Diffiniadau**

**'Absenoldeb wedi'i awdurdodi'**

Mae absenoldeb yn cael ei gyfrif yn absenoldeb wedi'i awdurdodi pan mae rheswm dilys am yr absenoldeb ac mae'r ysgol wedi cael hysbysiad gan riant neu warchodwr. Yr ysgol yn unig gall awdurdodi'r absenoldeb. Nid oes gan rieni'r awdurdod hwn. O ganlyniad, ni fydd pob absenoldeb a chefnogi'r gan rieni/warchodwyr yn cael ei gyfrif yn absenoldeb wedi'i awdurdodi.

**'Absenoldeb heb ei awdurdodi'**

Mae absenoldeb yn cael ei gyfrif fel absenoldeb heb ei awdurdodi pan fo disgybl yn absennol heb ganiatâd y rhiant neu warchodwr a/neu heb ganiatâd yr ysgol . Mae'r absenoldeb heb ei awdurdodi os yw plentyn yn absennol heb reswm da, hyd yn oed gyda chefnogaeth rhiant neu warchodwr.

**'Gweithgaredd addysgol a gymeradwyir'**

Mae yna achosion pan fydd disgyblion yn derbyn addysg neu brofiadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth neu hyd yn oed oddi ar y safle. Enghreifftiau o hynny byddai, cystadlaethau chwaraeon a gemau yn erbyn ysgolion eraill, gwaith maes, teithiau preswyl, ymweliadau addysgol neu pan fo disgyblion yn cael rhan o'u haddysg mewn lleoliad arall gan barhau ar gofrestr yr ysgol ac yn y rhan fwyaf o achosion o dan oruchwyliaeth yr ysgol. Yn yr achosion yma mae'r disgyblion yn derbyn cod sydd yn cydnabod eu bod nhw yn bresennol ond yn cymryd rhan mewn gweithgaredd.

**'Nid yw'n ofynnol mynychu'**

Fe'i defnyddir ar gyfer nifer fach o amgylchiadau anfynych penodol e.e. ffyrdd ar gau oherwydd tywydd garw.

**Absenoldeb**

Ceir cysylltiad amlwg rhwng diffyg presenoldeb a diffyg cyflawniad. Dylai disgyblion ddod i'r ysgol bob diwrnod ysgol lle gallent. Dylai rhieni/gwarchodwyr annog eu plant i fynychu'r ysgol a phwysleisio'r angen i fod yn bresennol er mwyn cyrraedd eu potensial.

Os nad yw disgybl yn bresennol yn yr ysgol, gofynnir i rieni/warchodwyr ffonio'r ysgol ar ddiwrnod yr absenoldeb er mwyn rhoi gwybod nad yw eu plentyn yn yr ysgol.

Er mwyn sicrhau fod y disgybl yn ddiogel gartref a bod yna reswm dilys pan nad yw'r disgybl yn yr ysgol, gweithredir system o gysylltu â rhieni ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb a phob diwrnod arall os nad oes rheswm wedi ei rhoi am yr absenoldeb, e.e. sâl am rhai diwrnodau ayb. Bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni/gwarchodwyr disgyblion sydd yn absennol drwy ffonio unwaith mae'r gofrestr wedi cau.

Disgwylir bod rheswm dilys dros yr absenoldeb. Os yw disgybl yn absennol am fwy nag un diwrnod, neu os nad yw'r galwad ffôn wedi ei wneud i nodi'r rheswm dros yr absenoldeb, yna gofynnir i rheini/gwarchodwyr ysgrifennu nodyn i esbonio'r absenoldeb. Gwelir slipiau egluro absenoldebau yng nghefn y llawlyfr disgybl. Bydd angen i'r disgybl gyflwyno'r nodyn absenoldeb i'w athro/athrawes ar y diwrnod cyntaf yn ôl i'r ysgol. Os ydy rhiant wedi egluro'r holl absenoldebau drwy ymateb i'r alwad ffôn yna nid oes angen ysgrifennu nodyn.

Mae absenoldebau heb awdurdod yn fater difrifol ac mae dyletswydd ar yr ysgol i geisio lleihau achosion o absenoldebau o'r fath. Felly, gofynnir i rieni gydweithio â'r ysgol er mwyn rhoi gwybod am y rheswm dros yr absenoldeb.

**Monitro Absenoldeb**
Edrychir ar absenoldebau disgyblion yn wythnosol; caiff y data ei ddadansoddi a phatrymau absenoldeb eu hadnabod. Bydd yr ysgol yn cydweithio gyda'r cartref, Swyddog Presenoldeb a'r Gwasanaeth Lles Addysg i oresgyn unrhyw batrymau neu broblemau absenoldeb.

**Apwyntiadau Meddygol neu arall**
Gofynnir i rieni ysgrifennu nodyn* a'r disgybl ei gyflwyno i'r athro/athrawes o flaen llaw os oes apwyntiad meddygol neu unrhyw reswm pan fydd angen i'r disgybl adael yr ysgol cyn diwedd y diwrnod ysgol.

**Bydd cerdyn apwyntiad neu lythyr meddygol yn cyfrif fel nodyn absenoldeb yn yr achosion hyn.*

Cyn gadael y safle, bydd angen i rieni'r disgybl gofrestru yn y dderbynfa ei fod yn gadael y safle. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn ymwybodol nad yw'r disgybl bellach ar safle'r ysgol pe bai tân neu ddigwyddiad difrifol arall. Mae'n rhaid i rieni gasglu eu plant o dderbynfa'r ysgol os oes yn rhaid i'r disgybl adael yr ysgol yn gynnar.

Nid oes hawl gan ddisgyblion adael y safle ar unrhyw adeg wedi iddynt gyrraedd yr ysgol nes diwedd naturiol y diwrnod ysgol am 3:30pm.

**Gwyliau yn ystod amser ysgol**
Disgwylir i rieni/warchodwyr sicrhau eu bod nhw'n mynd ar wyliau teuluol yn ystod gwyliau ysgol. Mae'r ysgol yn ymrwymedig i bolisi canolog y Sir o beidio awdurdodi gwyliau yn ystod tymor ysgol.

Os yw disgybl yn mynd ar wyliau nad yw wedi cael ei awdurdodi gan yr ysgol yna cyfrifir fel absenoldeb heb awdurdod.

Rhagwelir fod yna rhai amodau eithriadol pan nad yw'n bosib cyflawni'r uchod a bydd angen edrych ar bob cais yn unigol dan amodau o'r fath. Mae'r amgylchiadau eithriadol yn cynnwys:

- Teuluoedd personél sy'n gwasanaethu gyda'r Lluoedd Arfog os ydynt wedi bod i ffwrdd o'r cartref am gyfnod hir neu maent yn methu cael eu rhyddhau o'u dyletswyddau yn ystod gwyliau ysgol;

- Rhiant neu blentyn a salwch sy'n cyfyngu ar fywyd;
- Teuluoedd sydd wedi dioddef trawma aciwt.

Os byddai teulu'n dymuno gwneud cais bod yr ysgol yn caniatáu i blant fynd ar wyliau yn ystod y tymor oherwydd amgylchiadau eithriadol yna byddai'n rhaid gwneud hynny yn ysgrifenedig. Dylai rhieni gyfeirio'r llythyr at y Pennaeth, Anne Fenner. Mae'n bosib y bydd yr ysgol yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig mewn rhai achosion.

**Absenoldebau mynych heb eu hawdurdodi (h.y. yn absennol yn gyson)**

Bydd yr ysgol yn cysylltu â rhiant neu warchodwr unrhyw ddisgybl sydd ag absenoldeb sydd heb ei awdurdodi. Os yw disgybl yn absennol heb awdurdod dro ar ôl tro, gofynnir i'r rhieni neu'r gwarchodwyr ymweld â'r ysgol i drafod y broblem.

Os nad yw presenoldeb y disgybl yn gwella ac yn gostwng islaw 86% yn y 6 wythnos sy'n dilyn y cyfarfod, yna bydd yr ysgol yn cyfeirio'r achos at y Gwasanaeth Lles Addysg, a fydd yn ymweld â'r cartref a cheisio sicrhau bod y rhieni neu warchodwyr yn deall difrifoldeb y sefyllfa.

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithio mewn partneriaeth a'r ysgol, cartref ac asiantaethau allanol er mwyn ceisio gwella presenoldeb y disgybl. Os dyw presenoldeb y disgybl ddim yn gwella yn ystod y cyfnod yn dilyn yr ymweliad hwn ac mae'r rhieni neu warchodwyr heb gyflwyno unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau'r absenoldebau mae'n bosib bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn rhoi rhybudd HCB i'r rhieni neu warchodwyr.

**Hysbysiadau Cosb Benodedig**

Yng Nghymru, mae deddfwriaeth (Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013) wedi rhoi pwerau newydd i awdurdodau lleol gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB) i rieni plant a phobl ifanc sy'n absennol o'r ysgol a/neu unedau cyfeirio disgyblion yn gyson, a hynny heb awdurdodiad.

Yn yr achosion isod mi fydd yr ysgol yn gwneud cais i'r Gwasanaeth Lles Addysg gyflwyno HCB : -

- Pan fo o leiaf 10 'sesiwn' heb awdurdodiad (sef 5 diwrnod ysgol) yn ystod y tymor presennol (nid oes yn rhaid iddynt fod yn olynol);
- Disgyblion yn cyrraedd ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben yn gyson h.y. mwy na 10 sesiwn yn ystod y tymor presennol;
- Pan fydd rhiant/gofalwr wedi methu â chysylltu â'r ysgol a/neu'r Gwasanaeth Lles Addysg i geisio gwella presenoldeb, ond nad oes camau wedi'u cymryd i gyflwyno cosb yn y llys;
- Cyfnod o absenoldeb o'r ysgol oherwydd gwyliau nas awdurdodwyd gan yr ysgol;
- Mae disgybl wedi dod i sylw'r heddlu yn rheolaidd yn ystod oriau ysgol ac mae'n absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol.

**Targedau Presenoldeb**
Targed presenoldeb pob disgybl yw 96%.

Caiff adroddiad o bresenoldeb ei gynnwys mewn adroddiad adeg Nadolig, Pasg a diwedd blwyddyn disgyblion.

Rhaid i'r ysgol osod targedau ar gyfer presenoldeb a lefelau absenoldeb yn flynyddol. Mae'r targedau hyn yn uchelgeisiol ac yn dilyn targedau cenedlaethol.

Er mwyn i'r ysgol allu gyrraedd y targedau hyn, gofynnir i rieni gydymffurfio â'r canllawiau yn y polisi hwn.

**Gwobrwyo Presenoldeb Da**
Er mwyn hybu presenoldeb da, bydd pob dosbarth yn wythnosol yn cael y cyfle i ennill tlws 'Llew Llwyddiant ' gyda'r dosbarth sydd â'r presenoldeb gorau'r wythnos honno yn gofalu am y tlws yn eu hystafelloedd dosbarth.

Bydd pob disgybl sydd â phresenoldeb o 100% yn y flwyddyn academaidd yn cael tystysgrif presenoldeb da i ddathlu eu llwyddiant.

**Diweddglo**
Bwriad y gweithdrefnau uchod yw sicrhau cydweithrediad rhwng disgyblion, yr ysgol, y cartref ac asiantaethau allanol i sicrhau'r presenoldeb orau posib ar gyfer disgyblion Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes, bod disgyblion yn mynychu'r ysgol ac yn cael pob cyfle i gyrraedd eu potensial.

Diwygiwyd Hydref 2015